# Y Pwyllgor Menter a Dysgu

**EL(3) 22-08 (p5) : 1 Hydref  2008**

## Tystiolaeth UCAC i'r Pwyllgor Menter a Dysgu

## Medi 2008: Y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

### 1. Rhagarweiniad

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle hwn i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Menter a Dysgu'r Cynulliad ar y Cytundeb Llwyth Gwaith athrawon. Mae UCAC yn croesawu'r gwelliannau sydd wedi dod oherwydd y cytundeb llwyth gwaith, ond nid yw amodau'r cytundeb yn cael eu gweithredu'n llwyr nac yn gyson yng Nghymru.

### 2 Tasgau Gweinyddol a Chlerigol (Cyflwynwyd 2003)

2.1 Croesawn y ffaith bod fwy o gymorth clerigol / gweinyddol ar gael.  Mae'r rhestr o dasgau gweinyddol yn glir.  Erbyn hyn, mae llawer o arfer dda, ac ysgolion wedi apwyntio staff ategol i wneud y gwaith, gan gynnwys apwyntio Swyddog Arholiadau mewn ysgolion uwchradd a lle mae'r gyfundrefn newydd yn gweithio'n dda, mae wedi arwain at newidiadau positif.

2.2 Serch hynny mae yna broblemau dybryd o hyd, a phum mlynedd ar ôl cyflwyno'r newidiadau, mae llawer o athrawon yn dal heb gefnogaeth ddigonol, a rhai heb gefnogaeth o gwbl.

2.3 Yn gyffredinol, mae'n haws i'r ysgolion mawr a'r ysgolion Uwchradd drefnu'r fath gefnogaeth.  Mae ysgolion Uwchradd bach, hefyd, yn ei chael hi'n anodd gan nad oes digon o gyllid i gyflogi'r nifer o staff ategol sydd wir angen i wneud gwahaniaeth.

2.4 Mae'n ymddangos nad yw pob ysgol / AALl, yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau.

2.5 Mae pwysau ar nifer o athrawon i barhau i gwblhau'r tasgau oherwydd diffyg cyllid a'r gofid am golli aelod o staff addysgu; weithiau mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynnal lefel staffio rhesymol a derbyniol, e.e. er mwyn lleihau maint dosbarthiadau, neu beidio â chael gormod o gymysgu oedrannau.

2.6 Penaethiaid / Dirprwyon yn aml yn gwneud llawer o'r gwaith eu hunain - dim cyllid i gyflogi a theimlo ei bod yn annheg gofyn i athrawon.  Sgil effaith hynny weithiau yw bod athrawon yn gwirfoddoli i rannu'r gwaith. Penaethiaid (Cynradd) heb gefnogaeth weinyddol ddigonol.

2.7 Lle mae'r AALl yn darparu cefnogaeth am ddiwrnod yr wythnos, tuedda i fod am dasg(au) arbennig, e.e. cwblhau ffurflenni PLASG. Golyga hyn bod rhaid ymdopi heb gefnogaeth 80% o'r amser.  Anodd, felly, sicrhau bod y cymorth ar gael ar yr adeg o'r wythnos pan mae angen gwneud y gwaith

2.8 O ran sefyllfa athrawon digyswllt, e.e. athrawon peripatetig neu athrawon sydd â chyfrifoldeb am Ganolfan Gymraeg i ddisgyblion Cynradd, mae gennym rhai enghreifftiau lle nad oes unrhyw gefnogaeth weinyddol a chlerigol o gwbl.  Maent yn parhau i gwblhau'r holl waith eu hunain.

### 3. Cydbwysedd bywyd / gwaith athrawon (Cyflwynwyd 2003)

3.1 Mae dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch 1974 a Rheoliadau Amser Gweithio 1988 yn cefnogi a hybu cydbwysedd bywyd / gwaith. Nid yw'r gosodiadau yn y STPCD yn ddigon clir / cryf i wneud gwahaniaeth:

"All teachers and headteachers should enjoy a reasonable work/life balance"

"Additional hours for classfroom teachers over and above the annual 1265 must be reasonable."

Pwy sydd yn penderfynu beth sydd yn rhesymol?  Pwy all fonitro oriau pob athro unigol a faint o waith maent yn ei gyflawni adre gyda'r nos?

3.2 Mae'n anodd sicrhau bod athrawon yn cael cydbwysedd bywyd / gwaith hyd yn oed pan mae'r Pennaeth yn ymwybodol o'r cyfrifoldeb.  Mae amser CPA (pan mae wedi'i drefnu'n gywir) wedi helpu, ond mae'r mwyafrif o waith paratoi, cynllunio ac asesu yn dal i orfod cael ei gwblhau tu allan i oriau ysgol.

3.3 Pwysau Gwaith cynyddol yn codi o'r holl newidiadau sy'n cael eu cyflwyno, e.e. Cwricwlwm Cenedlaethol newydd, cyfundrefn newydd ar gyfer Asesiad Athro (CA 2 CA3), gofynion newydd ar gyfer TGAU, arholiadau UG a safon U, yr agenda cyd-weithio a chyflwyno ystod ehangach o gyrsiau 14-19, paratoi a chyflwyno polisïau newydd i gyd fynd â datblygiadau cenedlaethol a statudol.

3.4 Teimlad ymhlith llawer o athrawon nad oes digon o drosolwg o gyfeiriad Llywodraeth y Cynulliad.  Mae gormod o Is-adrannau APADGOS yn canolbwyntio ar eu cynlluniau hwy heb ystyried (na hyd yn oed bod yn ymwybodol) bod newidiadau eraill ar droed hefyd. Efallai eu bod yn gosod disgwyliadau cwbl resymol o safbwynt cyflwyno'r newid y maent hwy'n gyfrifol amdano, ond pwy sydd yn cadw golwg ar y darlun llawn?

3.5 Athrawon dosbarth (Cynradd yn arbennig) yn teimlo bod gormod o waith cynllunio ar wahanol lefelau (tymor byr/canolig/hir) ar wahân i'r gwaith o baratoi ar gyfer cyflwyno gwersi. Cwestiwn sydd yn cael ei ofyn yn aml ydi - Pwy sy'n darllen yr holl gynlluniau hyn? Teimlad nad yw hyd yn oed Arolygwyr yn gwneud hynny! Teimlo'n rhwystredig iawn y gallai'r amser gael ei dreulio'n llawer mwy buddiol yn paratoi ar gyfer y dosbarth.

3.6 Lefel Biwrocratiaeth ar gyfer cofnodi manylion arholiadau allanol yn uchel ac yn cynyddu. Mae gweinyddu arholiadau allanol, o ran gwaith cwrs a gwaith papur yn afresymol o feichus erbyn hyn; dylai'r Isadran Cwricwlwm ac Asesu edrych arno'n fanylach. Mae'n rhaid gwneud y gwaith hwn yn ddi-gwestiwn, a does neb yn trafod gydag athrawon beth fydd effaith y newidiadau ar eu llwyth gwaith. Rhaid cwestiynu, hefyd, gwerth llawer o'r gwaith gweinyddu hwn.

3.7 Gormod o bwyslais ar osod targedau ymlaen llaw, e.e. ysgol / pwnc wedi cael canlyniadau gwych, ond disgwyl iddynt adeiladu ar hynny a dangos cynnydd pellach. Hyn yn gosod pwysau annheg ar athrawon ac yn ddisynnwyr, gan fod y plant yn mynd i fod yn rhai gwahanol o flwyddyn i flwyddyn.

3.8 Athrawon mewn ysgolion llai yn teimlo dan bwysau gan fod yn rhaid iddynt gymryd cyfrifoldeb dros nifer o bynciau. Felly, maent yn gorfod mynychu mwy o HMS mewn swydd, darllen mwy o ddogfennau, ysgrifennu a diweddaru mwy o gynlluniau gwaith a monitro'r pwnc ar draws yr ysgol. Yn aml, dyma'r athrawon sy'n gorfod gwneud pethau megis dyletswyddau buarth amlaf ac sydd yn debygol iawn o rannu llawer o'r gwaith sydd yn disgyn ar ysgwyddau'r Pennaeth gan eu bod yn sylweddoli bod gan Bennaeth mewn ysgol fach gyfrifoldebau dysgu trwm -a hynny heb gydnabyddiaeth ariannol.

3.9 I Benaethiaid a'r Uwch Dîm Reoli, mae darllen gwybodaeth cyfredol, megis Rheoliadau perthnasol, materion cyflogaeth, polisïau a chanllawiau cenedlaethol a'r holl ddogfennau sydd yn dod o ffynonellau megis Llywodraeth y Cynulliad, yn gosod pwysau ychwanegol sylweddol.

3.10 Ar hyn o bryd, tybiwn nad oes llawer o Fyrddau Llywodraethol o ddifrif yn ystyried eu cyfrifoldeb o dan Adran 21 o Ddeddf Addysg 2002, h.y. i ystyried cydbwysedd gwaith / bywyd Pennaeth yr ysgol. A hyd yn oed pan mae'n flaenoriaeth, nid oes llawer y gallant wneud, yn wyneb ffactorau tu hwnt i'w rheolaeth, i sicrhau'r cydbwysedd bywyd / gwaith hwnnw.

### 4. Amser Arweinyddiaeth (Cyflwyno 2003)

4.1 Gall fod yn anodd sicrhau amser arweinyddiaeth, yn enwedig mewn ysgolion bach, ond mae ysgolion uwchradd digon mawr hefyd yn adrodd mor anodd ydyw i'r Uwch Dîm Reoli gael digon o amser gyda'i gilydd i gynllunio'n strategol. Cynhelir lawer o gyfarfodydd cyn oriau cychwyn yr ysgol neu gyda'r nos.

4.2 Mae hefyd bryder am sefyllfa Rheolwyr Canol, y pwysau gwaith sydd arnynt hwy a'r amser annigonol maent yn ei dderbyn am arweinyddiaeth. Mae'r fframwaith arolygu ysgolion presennol yn rhoi pwyslais mawr ar rôl arweinwyr pwnc er enghraifft, a'u rôl bwysig iawn o ran rheoli, arwain a chodi safonau.

Mae angen edrych ar sut mae Rheolwyr Canol yn cael eu trin. Mae rhai athrawon dosbarth, hefyd, yn y sector Cynradd, yn gorfod cymryd cyfrifoldeb yn absenoldeb y Pennaeth, gan fod rhai ysgolion yn methu â fforddio apwyntio Dirprwy.

4.3 Mae apwyntiadau Penaethiaid Cynorthwyol yn dod yn fwyfwy aml nawr, ond, mewn gwirionedd, maent yn cymryd cyfrifoldebau Dirprwy ond heb dderbyn y cyflog.

### 5. Cyflenwi a'r rheol 38 awr (Cyflwyno 2004)

5.1 Yn ymddangosiadol, mae llawer o welliant yn y sefyllfa o gyflenwi yn lle cyd-athrawon, ond mae wedi golygu llawer o gost yn ariannol. Mae rhai ysgolion yn cyflogi pobl ar gytundeb i wneud y gwaith yma'n gyson, eraill yn defnyddio staff cynorthwyol ar gyfer cyflenwi byr dymor a rhai'n dibynnu ar chwilio am athrawon cyflenwi yn ôl y galw. Mae UCAC yn gwrthwynebu'r defnydd o staff cynorthwyol i edrych ar ôl dosbarthiadau cyfan.

5.2 Unwaith eto mae yna enghreifftiau o gamddehongli'r canllawiau:

cyfuno plant o fwy nag un dosbarth a pheidio â chyfrif hwn fel "cyflenwi"

Penaethiaid yn diystyru eu cyfraniad hwy tuag at gyflenwi

Penaethiaid (a / neu athrawon o dan bwysau i wneud mwy na'u siâr er mwyn osgoi problemau cyllido yn yr ysgol

ysgolion lle cytunwyd i anghofio'r rheol "dim gwaethygu" yn ystod y flwyddyn gyntaf, oherwydd byddai gweithredu'r rheol yn golygu costau rhy fawr i'r ysgol

5.3 Mae'r Penaethiaid hynny sydd yn tystio i lwyddiant yn y mater o leihau baich cyflenwi yn tystio, hefyd, y bydd yn anodd cadw at y dyddiad o Fedi 2009. Mae'r camau ymlaen wedi costio miloedd ar filoedd i ysgolion.

5.4 Dylai bob ysgol fod wedi cadw cofnod o drefniadau cyflenwi - felly dylai'r ystadegau hyn fod ar gael i'w harchwilio gan Lywodraeth y Cynulliad.

### 6. Arolygu arholiadau (Cyflwyno 2005)

Llawer o ddatblygiadau da yn y maes hwn. Yn dilyn cyfnod anodd i gychwyn, mae'n ymddangos bod pethau'n gweithio'n eithaf da o

ran arholiadau allanol, erbyn hyn, ond bod yna gost ariannol. Problemau'n codi gydag arholiadau mewnol - gallu ychwanegu llawer at gostau arolygu - mwy tebygol bod athrawon yr ysgol yn wneud hyn.

## 7. Amser CPA (Cyflwyno 2005)

7.1 Mae llawer o athrawon yn teimlo mai hwn yw'r newid mwyaf positif sydd wedi digwydd oherwydd y cytundeb llwyth gwaith. Amser CPA wedi bod yn gam mawr ymlaen, yn enwedig yn y sector Cynradd, ac mae'n ymddangos fel petai'n cael ei weithredu'n deg a llawn yn y rhan fwyaf o ysgolion. Lle mae'n gweithio'n dda, mae'n wir wedi gwneud gwahaniaeth positif iawn. Golygodd gost ariannol ychwanegol sylweddol, ond mae o fudd mawr i'r athrawon a'u disgyblion.

7.2 Problemau ymarferol sydd mewn rhai ysgolion, e.e. dim lle i athrawon gael mynd a chael llonydd i weithio, ond mae yna broblemau eraill:

mae rhai Penaethiaid yn torri rheolau a newid yr amser CPA yn ôl digwyddiadau yn yr ysgol, e.e. defnyddio'r athro i gyflenwi

mae yna ddefnydd cynyddol o Gynorthwywyr adeg cyfnod CPA sydd yn creu problemau gan fod athrawon yn aml yn cynllunio a pharatoi ar eu cyfer ac yn marcio wedyn. Hyn yn digwydd am sawl rheswm: Penaethiaid yn disgwyl iddo ddigwydd (ddim efallai'n dweud hynny nac yn sicr yn ei roi ar bapur); athrawon yn teimlo ei bod yn annheg ar Gynorthwywyr ar gyflogau isel i wneud gwaith athro ac yn cydymdeimlo â hwy fel cydweithwyr a chyfeillion ac yn ceisio eu helpu; athrawon yn sylweddoli na all Cynorthwywyr wneud y gwaith a ddim eisiau i gynnydd eu dosbarth gael ei lesteirio neu agweddau pwysig o'r cwricwlwm gael eu hanwybyddu; athrawon yn awyddus i fonitro cynnydd y disgyblion a mesur eu dealltwriaeth o'r gwaith a gyflwynwyd. Mae UCAC yn erbyn defnyddio Cynorthwywyr i edrych ar ôl dosbarthiadau cyfan- dylai fod athro cymwysedig yn gyfrifol am bob dosbarth ac yn bresennol yn ystod bob cyfnod addysgu

Penaethiaid yn gosod tasgau penodol ar gyfer y cyfnodau hyn

Penaethiaid yn disgwyl i athrawon wneud heb amser CPA am yr wythnos os ydynt wedi bod ar gwrs yn ystod yr wythnos honno

mae rhai Penaethiaid yn ceisio gorfodi athrawon i restru'r tasgau y maent yn eu gwneud yn ystod eu hamser CPA, ac felly'n cyflwyno mwy o fiwrocratiaeth a lefel o atebolrwydd diangen

mae rhai Penaethiaid yn gyndyn i roi amser CPA i athrawon rhan-amser neu i'r rheini sydd yn gweithio yn yr ysgol adeg amser CPA gweddill yr athrawon;

athrawon rhan-amser a digyswllt yn wynebu problemau'n amlach, e.e. athrawon AAA sy'n cael eu talu o gyllid canolog yr Awdurdod ddim yn cael CPA nid oes rhaid rhoi amser CPA i athrawon sydd yn gweithio trwy asiantaeth ac mae mwyfwy o athrawon cyflenwi yn gorfod troi at asiantaethau am waith

mewn rhai ysgolion nid yw amser CPA wedi'i amserlennu - digwydda'n ad hoc

nid yw cael amser CPA yn mynd i'r afael â phroblemau llwyth gwaith sydd yn deillio o ddosbarthiadau mawr, cyfuno oedrannau amrywiol mewn dosbarth, ac ati.

## 8. Amser Prifathrawiaeth Penodedig (Cyflwynwyd 2005).

8.1 Mae darparu Amser Prifathrawiaeth Penodedig yn anodd. Mae'r Penaethiaid hynny sydd mewn ysgolion Cynradd ac yn dysgu mwy na 50% o'r amserlen yn gorfod paratoi, cynllunio ac asesu a hefyd cyflawni holl ddyletswyddau eraill y rôl. Oherwydd diffyg arian, problemau sydd yn codi o ddydd i ddydd, y ffaith nad oes Dirprwyon mewn llawer o'n ysgolion, datblygiadau lwfansau CAD, gwneud ymgais i sicrhau tegwch i'w staff ynglŷn â gofynion y cytundeb llwyth gwaith, a.y.b., mae Pennaeth Cynradd yn y fath ysgol o dan fwy o bwysau nawr nag erioed.

8.2 Mae hefyd ofynion cynyddol ac afresymol ar Benaethiaid. Mae'n amhosib cadw i fyny â'r holl ddogfennau sydd i'w darllen a'r holl gynlluniau newydd ("initiatives") y dylid ymateb iddynt. Mae'r pentwr o ddogfennau'n tyfu a thyfu a gyda'r holl alwadau dyddiol ar Benaethiaid mae'n anodd iddynt sicrhau bod eu gwybodaeth yn gyfredol Mae rhai'n nodi pwysau enfawr o ran cyfrifoldebau Iechyd a Diogelwch fel enghraifft o'r cynnydd dros y blynyddoedd. Sôn hefyd am gynlluniau Ysgol Iach - gwych, ond angen i rywun wneud y cynllunio a sicrhau bod yr egwyddorion yn treiddio i holl fywyd yr ysgol, cysylltu â rhieni a sicrhau eu cydweithrediad a'u cefnogaeth. Ac yn bendant mae'r holl ddogfennau sydd yn dod gan Lywodraeth y Cynulliad yn feichus.

## 9. Diweddglo

9.1 Byddai gwell ymwybyddiaeth o'r School Teachers' Pay and Conditions Document, fel dogfen statudol, yn mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ddiogelu gwelliant. Cred UCAC bod angen sicrhau bod Penaethiaid a Llywodraethwyr yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau statudol. Mae hefyd yn bwysig bod athrawon yn dod yn llwyr ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau o dan dermau'r llyfr.

9.2 Mae cyllid ychwanegol i sicrhau bod modd ariannu'r cytundeb llwyth gwaith yn ddigonol yn angenrheidiol.

9.3 Byddai modd achub y cyfle o niferoedd yn gostwng i leihau maint dosbarthiadau - byddai hyn wir yn gwneud gwahaniaeth i lwyth gwaith - a lefelau straen athrawon.

**UCAC**

Pen Roc
Rhodfa’r Môr
Aberystwyth 01970 639950
SY23 2AZ ucac@athrawon.com